Dr Colin Sullivan, Prif Swyddog Gweithredu

Gwybodaeth am Brif Weithredwr a chyfarwyddwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Ymunodd Dr Colin Sullivan â'r ASB ym mis Medi 2017.

Mae Colin yn optometrydd sydd â dros ugain mlynedd o brofiad rheoli o fewn y sector gofal iechyd a chymdeithasol. Mae hefyd wedi gweithio ym maes ymgynghori rheoli iechyd rhyngwladol mewn mwy na deg ar hugain o wledydd ar gyfer yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, yr Undeb Ewropeaidd a Banc y Byd.

Ymunodd â'r Uwch Wasanaeth Sifil yn 2008 fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol Gogledd Iwerddon, cyn symud i fod yn Gyfarwyddwr Credyd Cynhwysol yng Ngogledd Iwerddon yn 2011.

Yn 2013, cafodd ei ddyrchafu yn Gyfarwyddwr Polisi Strategol a Diwygio yn Adran Gyllid Gogledd Iwerddon, lle bu'n Uwch Swyddog Cyfrifol dros ddatganoli Treth Gorfforaeth ac yn swyddog arweiniol Gogledd Iwerddon ar gyfer Diwygio'r Sector Cyhoeddus. Rhwng mis Ionawr a mis Medi 2017, Dr Sullivan oedd y gwas sifil arweiniol a oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymchwiliad cyhoeddus ar Gymhelliad Gwres Adnewyddadwy.